

Cyngor Cymuned Higher Kinnerton

Datrysiadau cyfryngau cymunedol

Mae Higher Kinnerton yn bentref bach yn Sir y Fflint ger y ffin â Swydd Caer yn Lloegr. Mae gan y Cyngor Cymuned braesept o tua £28000.

Mae Cyngor Cymuned Higher Kinnerton wedi ymgymryd â phrosiect aml gyfryngol i gefnogi eu cymuned.

Mae hyn wedi cynnwys y canlynol

- (1) Cylchlythyr i'r pentref
- (2) Facebook
- (3) Gwefan i'r pentref
- (4) Cyfleusterau aml gyfryngol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor

(1) Cynhyrchir cylchlythyr lliw rhad ac am ddim rhagorol sy'n cael ei gyhoeddi bob mis a'i ddsbarthu'n rhad ac am ddim gan is bwyllgor cyfryngau CCHK. Mae'n cynnwys yr holl newyddion a digwyddiadau diweddaraf yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos, ac mae ar hyn o bryd yn bedair tudalen ac yn cael ei gefnogi gan hysbysebion gan fusnesau lleol. Mae'r cylchlythyr hefyd yn cael ei archifo ac mae ar gael ar-lein ar gyfer y cyhoedd a'r gymuned

<http://higherkinnerton.org.uk/D7HTCC/CCHKD7/#newsletter>

(2) Agwedd arall o ymgyrch CCHK ar y cyfryngau yw cychwyn tudalen Facebook. Mae llawer o bobl yn y pentref wedi ymuno er mwyn cael y diweddaraf am newyddion a digwyddiadau lleol a chymryd rhan ym mywyd y gymuned i adeiladu a chefnogi eraill yn y gymuned.

Gallwch weld CCHK ar Facebook trwy chwilio am "Higher-Kinnerton"

(3) Mae CCHK hefyd wedi creu gwefan aml gyfryngol i roi gwybod i'r gymuned am y newyddion diweddaraf. Mae'n cynnwys hysbysiadau cyhoeddus a dogfennau'r Cyngor sydd hefyd ar gael ar-lein. Sefydlwyd Fforwm Cymunedol, ac ar hyn o bryd mae grwpiau cymunedol eraill fel yr Eglwys yr Holl Saint yn defnyddio'r wefan i helpu ymgysylltu â'r gymuned trwy ddiwyddiadau a newyddion. Mae'r wefan i'w gweld yn <http://higherkinnerton.org.uk/>

(4) Mae CCHK hefyd wedi cyflwyno datrysiad aml gyfryngol ar gyfer eu cyfarfodydd a chyflwyniadau.... Sylweddolodd CCHK fod cyfarfodydd yn parhau'n hirach a hirach ac yn aml fod rhaid darparu sawl copi o ddogfennau ar gyfer y cyfarfodydd ar gyfer aelodau'r Cyngor. Yn aml, nid oedd yn bosib rhoi'r holl ddogfennau oedd eu hangen i bob aelod, gan eu bod yn cynnwys tudalennau lawer, mapiau mawr a chynlluniau ar gyfer yr eitemau ar yr agenda....

Cafodd y Cynghorydd Jon Boden y cyfrifoldeb o ddod o hyd i ateb gyda chymorth tîm CCHK.

“Roeddem yn chwilio am ateb cost effeithiol ar gyfer defnyddio cyfryngau gwahanol yn ein cyfarfodydd, ac ar ôl gwneud peth ymchwil daethom o hyd i ateb. Nid oes cysylltiad rhyngwyd nac offer aml gyfryngol yn Neuadd y Pentref, lle'r ydym yn cyfarfod. Trwy ddefnyddio gliniadur, sgrin wastad fawr a theclyn WIFI er mwyn cysylltu â'r rhyngwyd, fe gawsom yr ateb.”

“Erbyn hyn mae ein cyfarfodydd yn defnyddio llawer llai o bapur a gallwn gyflwyno agenda, cofnodion a defnyddio teclynnau aml gyfryngol fel Google Earth / Street Maps a dyluniadau cynllunio”

“Gallwn roi'r gliniadur i unrhyw aelod yn y cyfarfod fel y gallant ei ddefnyddio a rhoi cyflwyniadau. Rydym yn defnyddio system rhannu ffeiliau ddiogel, sy'n golygu y gall aelodau lwytho eu dogfennau ar gyfer eu cyflwyno cyn y cyfarfod – mae hyn yn ein galluogi hefyd i edrych ar wybodaeth a dogfennau eraill y Cyngor Cymuned sy'n rhan o'r agenda ”

Mae'n amlwg y gall cyfryngau gefnogi'r gymuned a galluogi'r cyhoedd i ymgysylltu a thrafod gyda'r Cyngor Cymuned ac adrodd yn ôl ar faterion sy'n eu pryderu, fel diogelwch ffyrdd a materion cynllunio.

Mae'r datrysiad cyfryngau yma hefyd yn golygu fod y gymuned yn gallu gweld adroddiadau troseddu lleol yr heddlu a materion eraill sydd o bwys yn y pentref.